BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A489 (PONT REILFFORDD PENSTROWED, POWYS) (CYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 200-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ymhen dim llai na saith niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn.

Mae angen y Gorchymyn er mwyn diogelu defnyddwyr y ffordd a'r gweithlu tra bo wyneb newydd yn cael ei roi ar gerbytffordd Cefnffordd y Drenewydd i Aberystwyth (yr A489) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wrth Bont Rheilffordd Penstrowed ym Mhenstrowed yn Sir Powys.

Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a ganlyn, y codir arwyddion priodol i ddangos eu hyd a'u lled, yn dod i rym am 08:30 o'r gloch ar 19 Hydref 2009 ac y byddant yn parhau mewn grym tan 17:00 o'r gloch ar 30 Hydref 2009, neu hyd nes y bydd yr arwyddion traffig dros dro wedi cael eu symud ymaith yn barhaol. Disgwylir mai dim ond rhwng 08:30 o'r gloch ac 17:00 o'r gloch y bydd y cyfyngiadau yn gweithredu.

Effaith y Gorchymyn, a fydd yn para am 18 mis ar y mwyaf, fydd:

i. gosod dros dro derfyn cyflymder naill ai o 40 mya neu o 30 mya neu o 10 mya ar hyd y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn pan fydd arwyddion traffig yn dangos hynny. Bydd y terfyn 10 mya yn gymwys pan fydd gwaith confoi yn digwydd ar unrhyw ddiwrnod penodol; a

ii. gwahardd dros dro bob cerbyd rhag goddiweddyd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth

YR ATODLEN

Darn o gefnffordd yr A489 wrth Bont Reilffordd Penstrowed, Penstrowed yn Sir Powys.

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt ym mhen dwyreiniol Pont Reilffordd Penstrowed hyd at bwynt wrth fynedfa Red House Farm.

GALLWCH GAEL COPI O'R HYSBYSIAD HWN MEWN PRINT BRAS GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, TRAFNIDIAETH AC ADFYWIO STRATEGOL - YR IS-ADRAN CYNLLUNIO A GWEINYDDU TRAFNIDIAETH, Y GANGEN ORCHMYNION, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A489 TRUNK ROAD (PENSTROWED RAILWAY BRIDGE, PENSTROWED, POWYS) (TEMPORARY TRAFFIC RESTRICTIONS) ORDER 200-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than seven days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to safeguard the road user and the workforce whilst carriageway-resurfacing works are carried out on the Newtown – Aberystwyth Trunk Road (A489) (hereinafter referred to as "the trunk road"), at Penstrowed Railway Bridge, Penstrowed in the County of Powys.

The following restrictions, the extent of which will be signed accordingly, are expected to come into force at 08:30 hours on 19 October 2009 and will remain in force until 17:00 hours on 30 October 2009 or until temporary traffic signs are permanently removed. The restrictions are expected to operate only between 08:30 hours and 17:00 hours.

The effect of the proposed Order, which will have a maximum duration of 18 months, will be to:

i. impose temporarily either a 40 mph, 30 mph or 10 mph speed limit along the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice when indicated by traffic signs. The 10 mph limit will apply when convoy working is in force on any given day; and

ii. temporarily prohibit all vehicles from overtaking in the length of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division

SCHEDULE

Length of the A489 Trunk Road at Penstrowed Railway Bridge, Penstrowed in the County of Powys.

That length of the trunk road which extends from a point at the east end of Penstrowed Railway Bridge to a point at the access road to Red House Farm.

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, TRANSPORT AND STRATEGIC REGENERATION, TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION, ORDERS BRANCH, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.